**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**(A550 FFORDD PENARLÂG, FFAGL LANE A STRYT ISA, YR HÔB)**
**Gorchymyn (Terfyn Cyflymder 20mya) 202-**

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rhoi rhybudd drwy hyn ei fod yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adran 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill, a fydd yn:-

a) Gosod terfyn cyflymder 20 mya ar y darnau o ffordd a nodir yn yr Atodlenni i'r hysbysiad hwn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig a map yn dangos y darnau o ffyrdd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ymwneud â nhw a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn, arferol yn Llyfrgell, Sir y Fflint yn Cysylltu, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, CH7 1AP, yn ystod oriau gwaith arferol neu fe gellir eu gweld ar ein gwefan yn www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu gallwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.ukneu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/NW/Shotton/OWT) erbyn dydd Gwener, 21 Hydref 2022.

**ATODLEN**
**Terfyn Cyflymder 20 mya**

**A550 Ffordd Penarlâg:** O'i 24 metr ei chyffordd â Llwyn Eglwys i'w 77 metr de o'i chyffordd â Queensway.
**Fagl Lane:**O'i chyffordd â'r A550 Ffordd Penarlâg am bellter o 438 metr
**Stryt Isa:** O'i chyffordd â'r A550 Ffordd Penarlâg i'w chyffordd â Pigeon House Lane.

KWilliams

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

Dyddiedig y 30 diwrnod o Medi 2022

# GORCHYMYN

## YR A550 HAWAREDEN ROAD, FAGL LANE A STRYT ISA, YR HÔB

## (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R

## TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD)

## (DIWYGIAD RHIF 2) CYNGOR SIR Y FFLINT 202-

**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),**

**Neuadd y Sir,**

**Yr Wyddgrug,**

**Sir y Fflint,**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN**

**YR A550 HAWAREDEN ROAD, FAGL LANE A STRYT ISA, YR HÔB**

**(FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL.**

**FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD)**

**(DIWYGIAD RHIF 2) CYNGOR SIR Y FFLINT 202-**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 - RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XX 202- a chaiff ei enwi yn GORCHYMYN YR A550 HAWAREDEN ROAD, FAGL LANE A STRYT ISA, YR HÔB.(FFYRDD AMRYWIOL) (TERFYN CYFLYMDER 20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A THERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL) (DIWYGIAD RHIF 2) CYNGOR SIR Y FFLINT 202-

**Darpariaethau Cyffredinol**

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 20 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

5. Mewn grym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Atodlenni Map K12, K13 a L11 Rhif Taflen Ddiwygiedig: 2 sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn hwn, yn disodli Atodlen Map K12, K12 a L11, Rhif Taflen Ddiwygiedig 1, yng Ngorchymyn (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r terfynau cyflymder cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a

Ffyrdd Heb Gyfyngiad) Cyngor Sir Ddinbych 2021, mewn perthynas â’r ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**20 MYA**
**YR HÔB**

| Enw’r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| Yr A550 Hawareden Road | K12 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2021) |
| Fagl Lane | L11 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2021) |
| Stryt Isa | K13 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2021) |

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN** )

**CYNGOR SIR Y FFLINT** )

yn y fan hon )

ar y xx diwrnod hwn o xxxx 202- )

ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**A550 HAWAREDEN ROAD, FAGL LANE A STRYT ISA, YR HÔB**
**(Terfyn Cyflymder 20mya) Gorchymyn 20-**

**DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN**

Yn dilyn cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu mesurau diogelwch sylweddol (mae'r Terfyn Cyflymder 20 mya yn ffurfio rhan ohonynt) er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd a lleihau symudiadau cerbydau diangen ar hyd y llwybrau i Ysgol Uwchradd Castell Alun ac Ysgol Estyn, Yr Hôb.

Mae nifer o'r problemau a nodwyd ar hyd y llwybr yn ymwneud â lefelau uchel o gerbydau'n cael eu defnyddio a thagfeydd cysylltiedig yn yr ardaloedd yn agos at yr ysgol ac ar hyd nifer o lwybrau i'r ysgol.

Yn y blynyddoedd diweddar, mae Cyngor Sir y Fflint wedi cael nifer o bryderon gan breswylwyr, disgyblion, rhieni, staff addysgu ac Aelodau Lleol oherwydd pryderon ynghylch lefelau cynyddol o dagfeydd a chyflymder traffig o amgylch yr ysgol.

Codwyd pryder penodol ynglŷn â modurwyr yn anwybyddu'r terfyn cyflymder cynghorol o 20mya yn agos at yr ysgol, ac mae nifer o breswylwyr yn bryderus am ddiogelwch y plant sy'n defnyddio'r llwybr hwn yn ddyddiol.

Bydd gweithredu terfyn cyflymder gorfodol o 20 milltir yr awr arfaethedig ar hyd terfyn y cynllun arfaethedig yn ymdrin â phroblemau goryrru a hefyd sicrhau bod y llwybr yn cyrraedd y safon ofynnol i hyrwyddo defnydd o ddulliau teithio llesol trwy'r cysyniad o rannu gofod.

Bydd gostwng y terfyn cyflymder yn ymdrin â phroblemau goryrru a bydd yn gwella diogelwch i gerddwyr a defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, a lleihau tagfeydd a gwella llif y traffig. Bydd lleihau'r tagfeydd o fudd i ddiogelwch y plant sy'n teithio i'r ysgol ac yn ôl adref a bydd hefyd yn gwella ansawdd yr aer ac ansawdd bywyd trigolion lleol.

Mae'r Terfyn Cyflymder 20mya yn rhan hanfodol o'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae mesurau eraill o'r fath yn cynnwys cyfleusterau croesi newydd a gwell darpariaethau cerdded a beicio.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig 23 Medi 2022

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF




## KEY

Arfaethedig Terfyn Cyflymder 20mya
Proposed 20mph speed limit

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
|---|---|---|

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
Streetscene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

# Safer Routes In the Community 2021/22

## Fagl Lane, Stryt Isa and A550 Hawarden Road Hope

## Arfaethedig Terfyn Cyflymder 20mya Proposed Speed Limit

(Sheet 1 of 1)

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

Contact Name: Jess Welstead | Telephone: 01352 70????
Drawn by: Nick Williams | Fax No: 01352 70
Checked by: Jayne Rodgers | Date: November 2021 | Sheet 1 of 1

| Scales at A0: | Drawing No: | Phase/Rev: |
|---|---|---|
| 1:NTS | 2021/LAYBY/A550HOPE | P1 |




## KEY

Arfaethedig Terfyn Cyflymder 20mya
Proposed 20mph speed limit

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).
Streetscene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Project:

# Safer Routes In the Community 2021/22

## Fagl Lane, Stryt Isa and A550 Hawarden Road Hope

## Arfaethedig Terfyn Cyflymder 20mya Proposed Speed Limit

(Sheet 1 of 1)

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF
Contact Name: Jess Welstead Telephone: 01352 70????
Drawn by: Nick Williams Fax No: 01352 70
Checked by: Jayne Rodgers

Date: November 2021
Sheet 1 of 1

| Scales at A0: | Drawing No: | Phase/Rev: |
|---|---|---|
| 1:NTS | 2021/LAYBY/A550HOPE | P1 |




**Legend / Eglurhad**

- 20 mph / mya
- Restricted Road' (30mph) / Ffordd Gyfyngedig (30mya)
- 30 mph by Order / 30 mya drwy Orchymyn
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2021.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2021.**

**Sheet M5 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolygiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** xx/xx/20xx




© Crown copyright and database rights, 2021. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2019. OS 100023386.

## Legend / Eglurhad

- 20 mph / mya
- Restricted Road (30mph) / Ffordd Gyfyngedig (30mya)
- 30 mph by Order / 30 mya drwy Orchymyn
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2021.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2021.**

**Sheet M5 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 1

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** 03/09/2021




## Legend / Eglurhad

- 20 mph / mya
- Restricted Road' (30mph) / Ffordd Gyfyngedig (30mya)
- 30 mph by Order / 30 mya drwy Orchymyn
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2021.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2021.**

**Sheet M6 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolygiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** xx/xx/20xx




## Legend / Eglurhad

- 20 mph / mya
- Restricted Road (30mph)
  Ffordd Gyfyngedig (30mya)
- 30 mph by Order
  30 mya drwy Orchymyn
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies
  Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies)
  Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders
  Ffyrdd sy n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2021.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2021.**

**Sheet M6 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 1

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** 03/09/2021